

**Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd Awst 24ain
2022 am 7.30 o'r gloch.**

**Minutes of Llanddona Community Council monthly meeting held on 24th August
2022 7.30pm**

Presennol/Present - Is-gadeirydd Mark Griffiths, Barbara Williams, Tony Jones, Maldwyn Williams, Dilys Williams, Rhian Hughes a Geraint Parry (Clerc/Clerk)

1. **Ymddiheuriadau/Apologies** - Gwennan Hughes, Alun Roberts, Carwyn Jones a Gary Pritchard.
2. **Cofnodion/Minutes** - Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 20fed o Orffennaf fel rhai cywir gan Barbara Williams, eiliwyd gan Mark Griffiths / *Minutes of the previous meeting held on 20th July were accepted as accurate by Barbara Williams, seconded by Mark Griffiths.*
3. **Datgan diddordeb rhagfarnol / Declaration of prejudicial interest**
Dim diddordeb i ddatgan / *No declaration of interest*
4. **Datganiad Swydd / Declaration of Office**
 - 4.1 Gofynnodd y Clerc i bob aelod lofnodi'r ffurflen datganiad priodol. Y Clerc i ddsbarthu'r ddolen ar gyfer Cod Ymddygiad Cynghorwyr / *The Clerk requested each member to sign the appropriate declaration form. The Clerk to circulate the link for the Councillors Code of Conduct.*
5. **Etholiadau / Elections**
 - 5.1 **Cadeirydd/ Chairperson** - Cynigwyd Maldwyn Williams fel Cadeirydd gan Barbara Williams, gydag Mark Griffiths yn eilio / *Maldwyn Williams was proposed as Chairperson by Barbara Williams, seconded by Mark Griffiths.*
 - 5.2 **Is-Cadeirydd/ Deputy Chairperson** - Cynigwyd Mark Griffiths fel Is-Cadeirydd gan Maldwyn Williams, gydag Rhian Hughes yn eilio / *Mark Griffiths was proposed as Deputy Chairperson by Maldwyn Williams, seconded by Rhian Hughes.*
6. **Seddi Gwag / Vacant Seats**
 - 6.1 Yn dilyn hysbysiad ar gyfer Cyfethol, derbyniwyd un mynegiant o ddiddordeb. Cafodd yr ymgeisydd eu derbyn yn unfrydol - sef Dilys Williams / *Following notice for Co-Option, one expression of interest was received. The candidate was unanimously accepted - namely Dilys Williams.*
7. **Lwfans Aelodau / Members Allowance**
 - 7.1 Gofynnodd y Clerc i bob aelod benderfynu a ddylid derbyn y lwfans priodol / *The Clerk requested each member to decide whether to received the appropriate allowance.*
8. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes**
 - 8.1 Meinciau'r Pentref - penderfynwyd trefnu ymweliad safle ar 03/09 er mwyn archwilio cyflwr y meinciau / *Village Benches - it was decided to arrange a site visit on 03/09 to examine the condition of the benches.*
 - 8.2 Eglurodd Cyng. R Hughes y cynllun y meinciau gwrando. I'w drafod gyda Chyngor Tref Biwmares / *Clr. R Hughes explained the listening benches plan. To be discussed with Beaumaris Town Council.*
9. **Adrodd gan y Cyngorwr Sir / Report by County Councillor**
 - 9.1 Dim adrodd y tro yma / *No report on this occasion.*
10. **Cofeb / Memorial – Capel Peniel**

10.1 Yn dilyn ateb i'n cais, roedd yn siomedig deall na fydd unrhyw rodd i'r Gymuned yn dod o'r Henaduriaeth. Yn dilyn rhagor o drafodaeth, Clerc i gysylltu â'r sefydliad Llywodraethol / *Following a reply to our request, it was disappointing to understand that no donation will be forthcoming to the Community. Following further discussion, Clerk to contact the Governing organisation.*

11. Traeth / Beach

- 11.1 Gwnaed ail-gipio cyflym o'r cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 28/07. Sylwyd na wahoddwyd pawb oedd â diddordeb lleol. Clerc i gynghori'r Cyngor Sir gyda manylion cyswllt / *A quick recap was made of the public meeting that took place on 28/07. It was noticed that not all the people with local interest were invited. Clerk to advise the County Council with contact details.*
- 11.2 Y teimlad yw bod llai o wersylloedd yn ymweld â'r traeth ac o bosib mae'r arwyddion rhybudd yn gweithio. Mae rhai o'r tîrfeddianwyr wedi gosod rhwystrau yn eu lle, fel codi lefel y tir a gosod cerrig mewn lleoliadau penodol. / *It is felt there is less campers visiting the beach and possibly the warning signs are working. Some of the landowners have put obstacles in place, like raising the level of land and placing stones in certain locations.*
- 11.3 Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir sut maen nhw am fwrw ymlaen a chael cynnydd / *Clerk to contact the County Council on how they wish to proceed and obtain progress.*

12. Cae Chwarae / Playing Field

- 12.1 Yn dilyn trafodaeth ynglŷn â'r ffens a ddifrodwyd, penderfynwyd yn unfrydol y dylid trefnu ymweliad â'r safle er mwyn asesu'r gwaith sydd ei angen i'w atgyweirio. / *Following discussion regarding the damaged fence, it was unanimously decided that a site visit is to be arranged in order to assess the work required to repair.*

13. Llwybrau Cyhoeddus / Public Footpaths

- 13.1 Esboniodd y Clerc nad yw wedi gallu cysylltu â'n contractwr. Penderfynwyd yn unfrydol, er mwyn cynnal rheolaeth dros y llwybrau cyhoeddus, os na wneir cyswllt dros y penwythnos sydd i ddod, y Clerc i gael contractwr arall / *Clerk explained that he has been unable to contact our contractor. It was unanimously decided, that in order to maintain control over the public footpaths, if contact is not made over the forthcoming weekend, the Clerk to obtain another contractor.*
- 13.2 Codwyd pryder ynglŷn â chyflwr y llwybr cyhoeddus ger Tŷ'n Llain. Clerc i drafod gyda SP Energy / *Concern was raised regarding the condition of the public footpath near Ty'n Llain. Clerk to discuss with SP Energy.*

14. Cwlwm Seiriol

- 14.1 Cafwyd cais gan Cwlwm Seiriol os allant nhw gasglu hadau dolydd blodau gwyllt o'r tir comin. Cafodd cais ei gymeradwyo'n unfrydol / *A request was received from Cwlwm Seiriol if they could collect wild flower meadow seeds from the common land. Request was unanimously approved.*
- 14.2 Nodwyd bod yr helyg yn tyfu ar y tir comin ger Mynydd Crafoed / *It was noted that the willow is growing on the common land by Mynydd Crafoed.*
- 14.3 Codwyd Pryder ynglŷn â chynnydd prosiect Cwlwm Seiriol. Clerc i wahodd D Philips i'n cyfarfod nesaf / *Concern was raised regarding the progress of the Cwlwm Seiriol project. Clerk to invite D Philips to our next meeting.*

15. Arolwg Maes Chwarae

- 15.1 Esboniodd y Clerc adroddiad ROSPA, yn ymddangos bod yr holl offer ac arwynebau i fod mewn cyflwr da / *The Clerk explained the ROSPA report, it showed all the equipment and surfaces to be in good condition.*

16. Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications

16.1 HHP/2022/46 - Tan yr Allt Bach, Llanddona - cais llawn ar gyfer dymchwel, addasu ac ehangu - penderfynwyd gwrthwynebu'r cais / *Full application for Demolition, alterations and extensions - it was decided to refuse the application*

Penderfyniad Cynllunio / Planning Decisions

- 16.2 DAG/2022/10 - Cefn, Llanddona - cais i bennu os oes angen cais cynllunio ar gyfer codi sied amaethyddol ar gyfer cadw peiriannau fferm - nad yw'r cynigiad angen caniatâd blaenorol / *Application to determine whether prior approval is required for the erection of an agricultural shed for storing farm machinery - planning authority is not required*
- 16.3 OP/2022/3 - Craig y Brenin - cais amlinellol ar gyfer codi annedd - wedi ei caniatáu / *Outline application for the erection of a dwelling - granted*
- 16.4 FPL/2020/6 - Craig y Brenin, cais llawn ar gyfer codi dau annedd - wedi ei wrthod / *Full application for the erection of two dwellings - refused*

17. Cyfrifon / Accounts

- 17.1 Esboniodd y Clerc yr incwm a'r gwariant hyd at chwarter 1 / *The Clerk explained the income and expenditure up to quarter 1.*
Cytunwyd yn unfrydol i dalu'r canlynol / *It was unanimously agreed to pay the following:-*
- 17.2 Torri Mynwentydd / *Cemetery Maintenance - £285.00*
- 17.3 Torri Mynwent y Plwyf, gwaith ychwanegol / *Community Cemetery, additional work - £175.00*
- 17.4 Rhodd - Eglwys St Iestyn / *Donation St Iestyn Church - £1,500*
- Incwm / Income**
- 17.5 Wayleave - £63.95

18. Gohebiaeth / Correspondence

- 18.1 Cyfarfodydd Fforwm Cyswllt Tref a Chymunedau'r Cyngor Sir / *Town & Community Council Liaison Forum meetings 8/09/22 & 22/09/22 @ 6:30pm*
- 18.2 Hyfforddiant Cod Ymddygiad / *Code of Conduct Training*
- 18.3 Digwyddiad Seiriol yn Sgwar White Lion / *Seiriol Event White Lion Square 28/08/22 - 10am-4pm*
- 18.4 Pencampwyr Iaith Cymraeg / *Welsh Language Champion*
- 18.5 Cwyn / *Complaint - Grugfa*
- 18.6 Hyfforddiant Un Llais Cymru - Awst / *One Voice Wales training - August*

19. UFA / AOB

- 19.1 Cynnal Caffi Trwsio yn Neuadd Bentref Llangoed 4/09/22 / *Repair Cafe to be held at Llangoed Village Hall 4/09/22*
- 19.2 Eglurodd y Clerc y bydd yn cofrestru ar yr hyfforddiant Cod Hyfforddiant ar 18/10/22 / *Clerk explained that he will enrol on the Code of Conduct Training on 18/10/22*
- 19.3 Adroddodd Cyng. H Owen fod gwastraff adeiladu wedi'i adael ar y ffordd tuag at Fast yr Heddlu / *Clr H Owen reported of building waste dumped on the road towards the Police Mast*

20. Dyddiad cyfarfod nesaf/Date of next meeting:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i ben 21:10. Cyfarfod nesaf ar 21/09/22 am 19:30 / *There was no further business to discuss. Meeting ended 21:10pm. Next meeting to be held on 21/09/22 at 19:30pm.*

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad